# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2013** |
| Amser: | **09:02 – 10:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_18_06_2013&t=245&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Elin Jones**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Arfon Rhys, Prif Ddeisebwr**<br>**Emma Sangster, Forces Watch**<br>**Sara Hawys, Gwahardd recrwitio mewn ysgolion** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Sian Hughes (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC, ac roedd Elin Jones AC yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 3 Trafodaeth am weithgarwch y Pwyllgor

Trafododd yr Aelodau'r hyn y maent am i'r Pwyllgor ei wneud yn ystod tymor yr hydref.

## 4 P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

## 5 P-04-474 Cefnogaeth i wasanaethau caplaniaeth y GIG

Trafododd yr Aelodau'r sesiwn dystiolaeth ar 2 Mehefin a chytunodd i ysgrifennu at:

- fyrddau iechyd lleol yn unigol a gofyn iddynt a ydynt yn cofnodi unrhyw ddata ynghylch y defnydd o wasanaethau caplaniaeth; a gofyn sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu ar draws y gwasanaethau mewn ardal bwrdd iechyd lleol; a'r
- Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi gwybod iddo am y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud ar y deisebau, gan amlygu pryderon deisebwr y Gaplaniaeth Elusennol am y diffiniadau o ofal ysbrydol a chrefyddol a holi a yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddarparu gwasanaethau caplaniaeth.

Gan ddibynnu ar yr ymatebion gan fyrddau iechyd lleol a'r Gweinidog, efallai y bydd y Pwyllgor yn gwrando ar sesiwn dystiolaeth lafar arall ar y ddeiseb.

## 6 Deisebau newydd

### 6.1P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i holi ei farn am y ddeiseb.

### 6.2P-04-488 Yr hawl i benderfynu: diwedd ar astudiaeth orfodol o'r Gymraeg hyd at lefel TGAU

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i holi ei farn am y ddeiseb.

### 6.3P-04-489 Deddf genedlaethol i Gymru ar dai fforddiadwy ac â blaenoriaeth

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i holi ei farn am y ddeiseb.

### 6.4P-04-490 Meddyginiaeth Gwrth-retrofeirysol yng Nghaerdydd

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro yn holi eu barn am y ddeiseb.

### 6.5P-04-491 Banc Cenedlaethol ac arian cyflenwol i Gymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; a'r
- Gweinidog Cyllid yn holi eu barn am y ddeiseb.

### 6.6P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i holi ei farn am y ddeiseb.

## 7 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 7.1P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gynhyrchu adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r Pwyllgor drwy gydol y gwaith o ystyried y ddeiseb.

### 7.2P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Iechyd Cyhoeddus Cymru yn egluro ei rôl o ran gwybodaeth i gleifion am wasanaethau canser.

### 7.3P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Ceredigion yn amlygu pryderon y deisebwr am yr adolygiad annibynnol a gofyn am ei farn am y pryderon hyn.

### 7.4P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- glywed tystiolaeth lafar ynghylch y ddeiseb gan y deisebwyr a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; ac
- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn iddo roi tystiolaeth yn amlygu'r pryderon sydd gan y deisebwr o hyd am y cyllid a'r gwasanaethau annigonol i bobl ag anhwylderau bwyta.

### 7.5P-04-460 Moddion nid Maes Awyr

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- rannu datganiad ysgrifenedig diweddar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â'r deisebwr, ac i holi ei farn am yr ohebiaeth gan y Gweinidog a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru; ac
- ysgrifennu at Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru am y pryderon am yr amser y mae'n ei gymryd i ymateb i'r Pwyllgor.

Awgrymodd y Pwyllgor efallai y byddai'n ystyried gwrando ar sesiwn dystiolaeth lafar gan bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn y dyfodol.

### 7.6P-04-463 Lleihau Lefelau Halen mewn Bwyd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn holi ei farn am y ddeiseb.

### 7.7P-04-396 Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys i Blant Ysgol

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn wyneb datganiad y Gweinidog yn nodi nad oes ganddo unrhyw fwriad gwneud hyfforddiant triniaeth cynnal bywyd brys yn rhan orfodol o'r cwricwlwm.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod am y ddeiseb i Lywodraethwyr Cymru.

### 7.8P-04-467 Arholiadau ym mis Ionawr

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn wyneb cyhoeddiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i anfon copi o ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog at y deisebwyr.

### 7.9P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn holi a fyddai Cadw'n ystyried cofrestru'r cae chwarae ym Mharc y Strade yn y categori chwaraeon.

### 7.10 P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn wyneb y gwaith a wnaed eisoes a chan nad yw Llywodraeth Cymru'n rhoi rhagor o gyllid iddo.

### 7.11 P-04-477 Cefnogi'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru)

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn amlygu pryderon y deisebwr cyn yr ystyrir y mater ymhellach.

### 7.12 P-04-454 Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y rhanddeiliaid canlynol yn holi eu barn am y mater:

- Y Comisiwn Etholiadol
- Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Un Llais Cymru

### 7.13 P-04-435 Gweithredu Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018 ar Sail Ddi-ddifidend

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gofyn am gynnwys y deisebwr ar y rhestr ymgynghori ar gyfer gwaith ymgynghori ar reilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol.

### 7.14 P-04-438 Hygyrchedd wrth Siopa

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i drefnu cyfarfod rhwng y deisebwyr a Chyngor Caerdydd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymweliad.

### 7.15 P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y rhanddeiliaid canlynol yn holi eu barn am y mater:

- Cyngor Gwynedd
- Anabledd Cymru
- Age Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru

Rhoddodd Joyce Watson wybod i'r Pwyllgor am ei chanfyddiadau hi yn dilyn yr ymweliad â'r deisebwyr. Diolchodd i’r deisebwyr am gwrdd â hi ac am drafod yr hyn sy'n peri pryder iddynt ac i staff llyfrgell  Abermo am eu croeso yn ystod yr ymweliad.

## 8 P-04-432 Atal Recriwtio i’r Fyddin mewn Ysgolion: Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd Arfon Rhys, Sara Hawys ac Emma Sangster gwestiynau'r Pwyllgor.

Cytunodd Emma Sangster i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am weithgarwch y lluoedd arfog mewn ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.